

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 12/07/2016

PWNC / SUBJECT

Eitem : Mater yn codi o'r Pwyllgor Craffu – Arbedion Effeithlonrwydd Pellach
(Adran Rheoleiddio)

*Item : Matter arising from the Scrutiny Committee - Further Efficiency Savings
(Regulatory Department)*

PENDERFYNIAD / DECISION

Yn dilyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu yn unol â'r gofyn, cymeradwyo i'r Adran Rheoleiddio fwrw ymlaen â'r camau canlynol:

1. Ymrwymo i wneud yr Uned Difa Pla mor hunan gyllidol a phosib drwy gynyddu incwm o oddeutu £40,000 y flwyddyn, yn hytrach na diddymu'r gwasanaeth Difa Pla yn ei gyfanrwydd.
2. Diddymu swydd Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd ac addasu swydd gyfredol yr Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd i gynnwys cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ogystal, er mwyn cwrrd â'r arbediad Cam 2 Gwarchod y Cyhoedd (£69,000).
3. Bwrw ymlaen i gyfarfod arbediad o £278,440 fel y manylir yn 5.2 o'r adroddiad a gyflwynwyd, drwy weithredu ar gynllun amgen. Fe fydd y cynllun amgen yn canolbwyntio ar gynyddu incwm (yn deillio yn bennaf o'r ymdrechion i sefydlu Gorchymyn Parcio newydd), newid strwythur a lleihau risgiau sydd yn rhwystro arbedion sydd wedi eu cymeradwyo rhag cael eu gwireddu.

After being considered by the Scrutiny Committee as requested, to approve for the Regulatory Department to proceed with the following steps:

1. *To commit to making the Pest Control Unit as self-sufficient as possible by increasing income by approximately £40,000 per annum, rather than abolishing the Pest Control Service in its entirety.*
 2. *To abolish the post of Senior Manager - Public Protection and adapt the current post of Senior Planning and Environment Manager to include responsibility for Public Protection also in order to deliver the Step 2 Public Protection saving (£69,000).*
-

-
3. *To proceed to achieve a saving of £278,440 as detailed in 5.2 of the report submitted, by implementing an alternative scheme. The alternative scheme will focus on increasing income (deriving mainly from the efforts to establish a new Parking Order), changing the structure and reducing risks which prevent savings that have been approved from being implemented.*

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Fel rhan o'r ymarferiad i ganfod cynlluniau arbedion ariannol rhwng 2015 a 2018 mae'r Adran Rheoleiddio wedi cyflwyno gwerth £1,242,883 i Gabinet y Cyngor ac mae'r rhain wedi eu cymeradwyo. Yn ogystal, mae toriadau o £523,000 wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 3ydd o Fawrth, 2016.

Mae gan yr Adran 4 cynllun sydd wedi eu cyfeirio gan y Cabinet am waith pellach gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol cyn dod i gasgliad sef:

1. **Rhoi'r gorau i swyddogaethau anstatudol – Gwasanaethau Difa Pla** - £67,000.
2. **Cam 2:** Lleihad o 10% pellach yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd - £69,000.
3. **Cam 3:** Lleihad o 10% pellach eto yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd - £69,000.
4. **Hysbysebu ceisiadau Cynllunio** - £15,000.

Mae adroddiadau wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ac i gyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a Chorfforaethol, ac mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod Cabinet yn amlinellu'r prif gasgliadau i alluogi'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad.

O'r hyn a gyflwynir yn yr adroddiad, gellir gweld bod angen ystyried nid yn unig y cynlluniau sydd wedi eu cyfeirio am waith pellach gan y pwyllgorau craffu, ond hefyd yr arbedion sydd wedi eu cymeradwyo sydd gyda risg o beidio cyflawni. Dengys tabl 3 o'r adroddiad a gyflwynwyd bod cynllun amgen ei angen o £278,440. Cyfeiria'r adroddiad at opsiynau o amgylch newid strwythur Gwasanaethau'r Adran i leihau effaith y toriadau ar wasanaethau, i ganolbwyntio fwy o ymdrechion ar gynnyddu incwm, a lleihau'r risgiau sy'n ein rhwystro rhag gwireddu'r arbedion sydd wedi eu cymeradwyo.

Derbyniodd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol bod mabwysiadu cynllun amgen i gwrdd â'r arbedion yn ffordd resymol ymlaen. Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet ei awydd a'i ddisgwyliad i gwrdd â'r arbediad llawn o £278,440. Bydd yr Adran yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar gynnydd y cynllun amgen o fewn 9 mis.

As part of the exercise to find financial savings schemes between 2015 and 2018 the Regulatory Department has submitted schemes worth £1,242,883 to the Council Cabinet and these have been approved. In addition, cuts of £523,000 have been approved by the Council on 3 March, 2016.

The Department has four schemes which have been referred by the Cabinet for further work by the relevant Scrutiny Committees before reaching a conclusion, namely:

- 1. **Cessation of non-statutory functions – Pest Control Services** - £67,000.*
- 2. **Step 2:** A further 10% cut in the Public Protection Service budget - £69,000.*
- 3. **Step 3:** A yet further 10% cut in the Public Protection Service budget - £69,000.*
- 4. **Advertising Planning Applications** - £15,000.*

The reports have been submitted to the Communities Scrutiny Committee and to a joint meeting of the Communities and Corporate Scrutiny Committee, and the report submitted to the Cabinet meeting outlines the main conclusions for the Cabinet's consideration before reaching a decision.

From what has been submitted in the report, it can be seen that consideration must be given to not only the schemes which have been referred for further work by the scrutiny committees, but also the savings which have been approved which are at risk of not delivering. Table 3 of the report submitted shows that an alternative scheme is needed to address the £278,440. The report refers to options around changing the structure of the Department's Services to reduce the impact of the cuts on services, to focus more efforts an increasing income, and reduce the risks which prevent us from realising the savings which have been approved.

The Corporate Scrutiny Committee accepted that adopting an alternative scheme to address the savings was a reasonable way forward. At a meeting of the Scrutiny Committee, the Cabinet Member confirmed his desire and his expectation to fulfil the full saving of £278,440. The Department will report to the Scrutiny Committee on the progress of the alternative scheme within 9 months.

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio.

Nodwyd y bydd adroddiad pellach ar fanylion y cynlluniau ar gyfer cyrraedd y £278,440.

The report submitted by the Cabinet Member for Planning and Regulatory was accepted.

It was noted that there would be a further report on the details of schemes to deliver the £278,440.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Mae'r Adran Rheoleiddio, fel pob adran arall o fewn y Cyngor, yn wynebu her sylweddol wrth gyfarfod â gofynion gwireddu Strategaeth Arbedion a Phecyn Toriadau'r Cyngor. Yn amlwg, mae sefyllfaoedd yn newid ac mewn rhai achosion, nid yw bob amser yn bosib gweithredu yn union fel a ragwelwyd beth amser yn ôl, hyd at ddwy flynedd yn ôl yn achos rhai o'r arbedion effeithlonrwydd.

Mae'n gwbl resymol felly bod yr adran yn cyflwyno cynlluniau amgen gyda'r cynlluniau yna, mewn rhai achosion, wedi bod yn destun trafod mewn pwyllgor craffu er mwyn gwirio eu heffaith a'u hoblygiadau. Y pethau pwysig yma yw lleihau'r effaith ar y cyhoedd i'r graddau y mae hynny'n bosibl a hefyd bod yr Adran Rheoleiddio yn medru sicrhau'r Cabinet eu bod am wireddu'r targedau sydd wedi eu gosod a'r ymrwymadau wnaed o ran gwireddu'r holl arbedion a thoriadau sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor.

The Regulatory Department, like every other department within the Council, is facing a significant challenge in realising the Efficiency Saving Strategy and the Council cuts. Clearly, circumstances change, and in some situations it is not always possible to deliver in exactly the way envisaged in the past, some two years ago in some efficiency savings cases.

It is completely reasonable therefore that the department presents alternative schemes in such circumstances. In some cases these have been discussed in Scrutiny Committees to assess their effect and consequences. The important matters here are to reduce the effect on the general public as much as possible, and that the Regulatory Department can assure the Cabinet that it will deliver the targets set and the commitment made to realise all the efficiency savings and cuts that have been approved by the Council.

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Wrth adnabod a chymeradwyo rhaglen o arbedion mae angen i'r Cabinet fodloni eu hunain ynglŷn â'u dealltwriaeth o effaith posib a chadernid y cynlluniau. Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod yn cynnig datrysiadau amgen ar gyfer y targed arbedion ac yn cydnabod y gwaith pellach fydd ei angen i ddatblygu rhai elfennau.

In considering and approving a schedule of efficiency savings the Cabinet needs to satisfy itself of its understanding of the possible effects and robustness of the measures. The report submitted to the meeting offers alternative solutions to meet the efficiency savings target, and accepts that some further work is required to develop some aspects.

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Mae amrywiol resymau wedi golygu fod rhai o gynlluniau arbedion effeithlonrwydd yr Adran Rheoleiddio ddim am wireddu'r swm gwreiddiol. Lle bu adrannau eraill yn fyr o'u 'cwantwm' adrannol, maent wedi gorfod darganfod arbedion amgen o'r un gwerth ariannol, a dyma mae'r Adran Rheoleiddio wedi ei gyflwyno yma.

I grynhoi, mae'r cynlluniau a effeithir yn golygu gorfod adnabod £340k. Fe gadarnheir yn bendant ar ddau gynllun gwerth £109k, ac sy'n gadael felly gweddill o £231k. Mae'r adran yn ffyddiog y byddant yn gallu cyflawni hyn ac fe amlinellir ar y meysydd perthnasol o fewn yr adroddiad a gyflwynwyd, ac yn wir yn gallu gor-gyflawni £47k i gynhyrchu cyfanswm o £278k.

Mewn gwirionedd felly, mae'r argymhellion gerbron yn cynnig £46k mwy o arbedion na'r cyfanswm gwreiddiol a'r swm yma ar gael ar gyfer gofynion corfforaethol y Cyngor.

Fodd bynnag, mae cyfran go sylweddol o'r arbedion amgen a gynigir i ddod o gynyddu incwm. Lle mae incwm wedi cynyddu oherwydd camau rhagweithiol adrannol, mae gan yr Adran le i hawlio'r arbediad. Ar y llaw arall, os oes incwm uwch oherwydd tueddiad allanol o gynydd mewn galw (demand), byddwn wedi cipio'r swm hwnnw trwy addasu'r gyllideb.

Yn yr amgylchiadau, cytunodd y Cabinet fod y cynnig yma gan yr Adran Rheoleiddio yn gyfaddawd derbyniol.

Due to various reasons, some of the Regulatory Department's efficiency savings' original target may not be realised. Where other Departments have not met their departmental quantum, they have had to find alternative schemes of the same value, and this is what the Regulatory Department is presenting here.

To summarise, the affected schemes means that £340k needs to be found. Two of those schemes to the value of £109k have been confirmed, leaving £231k. Not only is the Department confident that it can achieve this and the relevant areas are outlined within the report, it's able to over-achieve by £47k to generate a total of £278k.

In truth, therefore, the recommendations propose £46k more savings than the original total with this sum available for the Council's corporate requirements.

However, a large proportion of the alternative savings proposed are from an increase in income. Where income has increased through proactive steps, the Department has a claim on those savings.

On the other hand, if the income is higher due to outside trends as a result of increase in demand, that sum will be snatched by adjusting the budget.

In the circumstances, the Cabinet agreed that this proposal from the Regulatory Department is an acceptable compromise.

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Nid yw'n fater lleol.

Not a local matter.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 12/07/2016

PWNC / SUBJECT

Eitem : Cyllideb Refeniw 2016/17 – Adnabod Risgiau Cynnar

Item : Revenue Budget 2016/17 - Identifying Early Risks

PENDERFYNIAD / DECISION

Nodi'r risgiau cyllidebol sydd wedi'u hadnabod yn gynnar yn 2016/17 a gofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu rheolaeth.

To note the financial risks which have been identified early in 2016/17 and ask the Cabinet Members and relevant heads of department to take appropriate steps regarding the matters under their management.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Gan ei bod mor fuan yn y flwyddyn, nid yw'r holl dueddiadau gwariant yn eglur, ac mae'r adroddiad ar gyfer y chwarter cyntaf yn dueddol o ganolbwyntio ar faterion sydd wedi dod i'r amlwg ers paratoi'r gyllideb ac unrhyw broblemau o sylwedd sydd wedi amlygu eu hunain yn y cyfamser.

O ganlyniad, roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod, a oedd wedi'i baratoi ar sail eithriadau, yn adnabod risgiau ariannol, yn hytrach na phroffwydo cyfanswm o orwariant gan y Cyngor yn 2016/17. Ceir amlinelliad o'r sefyllfa fesul adran yn Atodiad 1 yr adroddiad, ac yn Atodiad 2, sylwadau cryno ynglŷn â phrif faterion a meysydd ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol (cyllidebau lle ragwelir gorwariant yn 2016/17 ar sail profiad y chwarter gyntaf). Diau y bydd penawdau cyllideb eraill yn tanwario eleni a gwrthbwysu rhai o'r problemau sydd wedi eu nodi yma.

Er ei bod rhy gynnar i ddod i ganlyniad pendant am y perfformiad ariannol tebygol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, mae tueddiad tuag at orwariant ar rai penawdau gwariant eisoes, sy'n awgrymu risg o orwariant go sylweddol mewn sawl adran, gan gynnwys Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd, Addysg, Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, ac Ymgynghoriaeth, ond mae'r asesiad sydd yma o sefyllfa cyllideb 2016/17 yn un cynnar, ar sail eithriadau, ac yn unol â arfer da arferol yma yng Ngwynedd, mae'r adrannau perthnasol yn cymryd camau priodol i reoli eu cyllidebau eleni.

As it is so early in the year, not all of the expenditure trends are clear, and therefore the report for the first quarter tends to concentrate on matters that have become apparent since preparing the budget and any significant problems identified in the meantime.

Consequently, the report submitted to the meeting, which had been compiled on an exceptions basis, identifies financial risks, rather than predicting a total overspend by the Council in 2016/17. A summary of the situation for each department can be found in Appendix 1 to the report, and in Appendix 2, brief comments regarding the main issues and fields within which significant variances are forecast (budgets where overspend is projected in 2016/17 based on the experience of the first quarter). Doubtless, other budget headings will underspend and counterbalance some of the problems identified here.

Although it is too early to come to a definite conclusion about the probable financial performance by the end of the financial year, there is already a tendency towards overspending on some expenditure headings, which suggests a risk of quite substantial overspending in several departments, including Adults, Health and Well-being, Children and Supporting Families, Education, Highways and Municipal and Consultancy, but the assessment of the 2016/17 budget projected here is early, on an exceptions basis, and in accordance with the usual good practice here in Gwynedd, the relevant departments are taking appropriate steps to manage their budgets this year.

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Adnoddau.

The report submitted by the Cabinet Member for Resources was accepted.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive:-*

Er ei bod yn gynnar iawn yn y flwyddyn ariannol gyfredol, dyma'r amser iawn i fod yn ceisio adnabod unrhyw dueddiadau allai greu anawsterau ariannol i'r Cyngor yn hwyrach yn y flwyddyn, a mynd i'r afael a nhw. Rwy'n cymeradwyo'r argymhellion sydd yn yr adroddiad a gyflwynwyd, gan bwysleisio pwysigrwydd rheolaeth gyllidol gadarn dros wariant ar yr adeg anodd hwn.

Although it is very early in the current financial year, this is the right time to attempt to identify any trends which could create financial difficulties for the Council later in the year, and get to grips with them. I approve the recommendations which are in the report, stressing the importance of firm financial management over expenditure at this difficult time.

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

No observations from a propriety perspective.

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod ac yn cadarnhau'r cynnwys.

I have collaborated with the Cabinet Member in the preparation of this report and I confirm the content.

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Amherthnasol.

N/A

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 12/07/2016

PWNC / SUBJECT

Eitem : Rhaglen Gyfalaf 2016/17 – Adolygiad Chwarter Cyntaf (sefyllfa 30 Mehefin 2016)

Item : *Capital Programme 2016/17 - First Quarter Review (30 June 2016 position)*

PENDERFYNIAD / DECISION

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad y chwarter gyntaf (sefyllfa 30 Mehefin 2016) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod, sef:

- cynnydd £3,276,000 mewn amryw ffynhonnell i ariannu gwir lithriadau o 2015/16
- cynnydd £3,459,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £29,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £82,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- cynnydd £441,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

To accept the report on the first quarter review (30 June 2016 position) of the capital programme, and to approve the revised financing as shown in part 4 of the report submitted to the meeting, namely:

- *an increase of £3,276,000 in various sources to fund actual slippages from 2015/16*
- *an increase of £3,459,000 in the use of grants and contributions*
- *an increase of £29,000 in the use of capital receipts*
- *an increase of £82,000 in the use of revenue contributions*
- *an increase of £441,000 in the use of renewal and other reserves*

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Cyflwynwyd yr adroddiad technegol dan sylw fel rhan o drefn monitro cyllideb 2016/17. Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol.

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn

gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Bydd y penderfyniad uchod yn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2016/17 – 2018/19.

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw –

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £35.4m yn 2016/17, gyda £11.1m ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae £3.2m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2015/16 i 2016/17, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

Amlinellwyd y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig yn rhan 3 yr adroddiad i'r cyfarfod (dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £59.783m am y 3 blynedd 2016/17 – 2018/19).

Mae cynnydd o £7.452m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb agoriadol. Nodwyd y ffynonellau ariannu arfaethedig yn rhan 4 yr adroddiad i'r cyfarfod.

The technical report in question was submitted as part of the 2016/17 budget monitoring procedure. The main purpose of the report was to present the revised capital programme and to approve the relevant financing sources.

It is necessary to ensure appropriate financing arrangements for the Council's plans to spend on capital, and the Cabinet is required to approve the capital programme and its sources of funding.

Incorporating funding via grant is a point of order, but it is also necessary to deal with situations where there has been a change in expenditure profiles between years and a change in the value of capital receipts and contributions.

These above-mentioned decisions will ensure definite sources of funding for the 2016/2017 – 2018/19 capital schemes.

The main conclusions that arise from the revised position are -

- *That there are definite projects in place to invest approximately £35.4m in 2016/17, with £11.1m being financed by attracting specific grants.*
- *There is an additional £3.2m of proposed expenditure having been re-profiled from 2015/16 to 2016/17 but no loss of funding was caused to the Council where schemes have slipped.*

The revised proposed capital programme was outlined in part 3 of the report to the meeting (analysis by Department of the £59.783m capital programme for the three years 2016/17 - 2018/19).

There is an increase of £7.452m in the budget for the three-year capital programme since the opening budget position. The proposed sources of financing are noted in part 4 of the report to the meeting.

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Adnoddau.

Croesawyd y buddsoddiadau a wnaed ar ffurf grantiau a chyfraniadau a fanylir arnynt yn Atodiad A yr adroddiad a gyflwynwyd, a diolchwyd i'r unigolion hynny sydd wedi bod ynghlwm â'r gwaith o sicrhau buddsoddiadau o'r fath.

The report submitted by the Cabinet Member for Resources was accepted.

The investments made in the form of grants and contributions detailed in Appendix A of the reported submitted were welcomed, and those individuals who had been involved with the work of securing such investments were thanked.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive*:-
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad.

Nothing to add to the report.

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

No observations from a propriety perspective.

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad a gyflwynwyd, ac yn cadarnhau'r cynnwys.

I have collaborated with the Cabinet Member in the preparation of this report and I confirm the content.

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Amherthnasol.

N/A

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 12/07/2016

PWNC / SUBJECT

Eitem : Egwyddorion Cyfundrefn Addysg Addas i Bwrpas

Item : *The Principles of an Education System that will be Fit for Purpose*

PENDERFYNIAD / DECISION

Caniatáu'r Aelod Cabinet Addysg i ymgynghori gyda Llywodraethwyr ac ysgolion am addasrwydd yr egwyddorion a fydd yn sylfaen i gyfundrefn addysg ar gyfer y dyfodol i Wunedd.

Derbyn yr adroddiad ar Arweinyddiaeth fel sail i hyrwyddo trafodaeth am gyfundrefn addysg addas i bwrpas.

To authorise the Cabinet Member for Education to consult with Governors and schools on the suitability of the principles that will provide the foundations for a future education system for Gwynedd.

To accept the report on Leadership as a basis to promote discussion on a fit for purpose education system.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

Er mwyn hyrwyddo hyn mae angen i ni edrych ar yr isadeiledd presennol. Y tair egwyddor allweddol i'w hystyried fel deiliant o unrhyw benderfyniad i ad-drefnu'r isadeiledd yw:

1. Ydy'r sefyllfa arweinyddiaeth yn cryfhau?
2. Ydy ansawdd yr addysg cystal neu'n gwella?
3. Ydy ansawdd yr amgylchedd dysgu a'r adeiladau o leiaf cystal neu'n well?

Mae'n cael ei gydnabod gan Estyn ac arbenigwyr ym maes addysg mai arweinyddiaeth dda yw'r prif ffactor sy'n hyrwyddo addysg o'r ansawdd orau. Yr her fwyaf sy'n wynebu'r sector cynradd yw penaethiaid heb amser digonol i arwain ac athrawon mewn ysgolion bach iawn sy'n gorfod addysgu ystod eang o ddisgyblion o wahanol oeddrannau a galluoedd yn yr un dosbarth. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd sicrhau bod y gwaith yn bodloni anghenion pob disgybl. Yn yr un modd, yn y sector uwchradd, mae amser digyswllt uwch reolwyr a rheolwyr canol yn brin iawn ac yn gynyddol mae athrawon yn gorfod dysgu ail a thrydydd pwnc sy'n gallu bod y

tu allan i'w maes arbenigedd. Y drydedd egwyddor yw'r angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a'r adeiladau er mwyn cynnig yr amodau gorau i'r athrawon addysgu ac i ddisgyblion gyrraedd y safonau uchaf.

Mae'r adran Addysg wedi bod yn trafod gyda'n hysgolion ers rhai misoedd gan geisio darganfod – drwy holiaduron a thrafodaethau llafar – yr hyn sy'n gweithio a'r hyn a theimlir sydd angen mynd i'r afael ag o er mwyn gwella'n safonau. Nodwyd bod Penaethiaid yn pryderu am eu gallu i gynnal a gwella ansawdd addysg y Sir ac amlygir bod y sefyllfa bresennol yn anghynladwy. Buont hefyd yn ystyried a oes modd cryfhau ein strwythur canolog a nodwyd o hynny fod yr adran wrthi'n sefydlu swyddfeydd ardal yn y gobaith y gellid ymateb yn well i wahanol anghenion y Sir ac ysgafnhau gweinyddiaeth i ysgolion drwy ddarparu gwasanaethau'n fwy lleol.

Mae'r cyfle i ymgynghori rŵan ar yr egwyddorion yn galluogi ein Llywodraethwyr a staff ein hysgolion i fynegi barn ar addasrwydd yr egwyddorion. Bydd hyn yn arwain at sefydlu polisi a fydd yn mynd ati i gynllunio gwell amodau a fydd yn arwain at well ansawdd yn ein hysgolion.

Bydd yr egwyddorion yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r Cod Trefniadaeth 2013 sydd yn arweiniad statudol a fydd yn sail i gloriannu unrhyw gynnydd penodol. Yn amlwg bydd unrhyw gynnydd penodol yn gorfod cael eu creu a'u cloriannu gan gyfarch a pharchu prosesau ymgynghorol ac asesiadau effaith perthnasol wrth ddod i gasgliad.

Our vision is to ensure that the children and young people of Gwynedd achieve the highest standards in order to maintain the language, culture and economy locally.

In order to promote this vision we need to look at the present infrastructure. The three key principles to consider as outcomes of any decision to reorganise individual schools are:

- 1. Will the leadership situation strengthen?*
- 2. Is the quality of education as good or is there an improvement?*
- 3. Is the quality of the learning environment and buildings at least as good or an improvement?*

It is recognised by Estyn and specialists in the education field that good leadership is the principal factor that promotes education of the highest quality. The greatest challenge that the primary sector faces is head teachers without adequate time to lead and teachers at very small schools who have to teach a broad range of pupils of various age-groups and abilities in the same class. This means that it is difficult to ensure that the work meets every pupil's requirements. Likewise, in the secondary sector, leaders and middle managers have very little non-contact time and teachers have to increasingly teach their second and third subjects which can be outside their field of expertise. The third factor is the need to make the best use of resources in order to improve the learning environment and buildings so that we can offer the best conditions for teachers to teach and pupils to achieve the best standards.

The Education department has been discussing without schools for some months and have tried to discover - via questionnaires and discussions - what works and what it is felt needs to be addressed in order to improve our standards. It was noted that Heads were concerned about their ability to maintain and improve the quality of education in the County and it is highlighted that the current situation is unsustainable. They also considered whether it is possible to strengthen our central structure and it was noted that the department was currently establishing area offices in the hope that the various needs in the County could be responded to in a better way and lighten the administrative load on schools by providing services more locally.

An opportunity to consult now on the principles will allow our Governors and the staff in our schools to express a view on the suitability of the principles. This will lead to establishing a policy that will plan better conditions for securing better quality in our schools.

The principles will be considered alongside the School Organisation Code 2013 which gives statutory guidance that will form the basis for any specific proposal. Any specific proposals will of course have to be produced and evaluated addressing and respecting consultative processes and impact assessments when coming to a conclusion.

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Addysg, a chroesawyd y trafodaethau a fydd yn amgylchynu ein nod clir o ddarparu'r addysg gorau bosibl i blant y Sir.

Gwnaethpwyd sylwadau bod y gyfundrefn addysg, nid yn unig yn hanfodol i sicrhau'r addysg o'r safon gorau posibl, ond hefyd yn faes cyflogaeth hollbwysig i'r Sir, ac mae'r ffaith fod methiant i recriwtio yn amlygu problem amlwg, sydd yn amgylchynu amodau gwaith nad ydynt yn ddymunol. Mae felly'n hanfodol edrych ar y maes ac ystyried sut gellid gwneud gyrfa yn y proffesiwn yn un fwy hyfyw a deniadol. Cytunwyd bod angen ysgafnhau'r baich er mwyn galluogi ein harweinyddion i wneud yr hyn sydd yn ofynnol ohonynt o fewn yr amser rhesymol sydd wedi ei glustnodi o fewn eu cytundebau.

The report submitted by the Cabinet Member for Education was accepted and the discussions which will encompass our clear aim of providing the best possible education to the County's children were welcomed.

Comments were made that the education system is not only essential to ensuring the best possible standard of education, but is also a crucial employment field in the County, and the fact that failure to recruit highlights an obvious problem, which encompasses undesirable working conditions. It was therefore essential to look at the field and consider how a career in the profession could be made more viable and desirable. It was agreed that the workload must be lightened in order to allow our leaders to do what is required of them within the reasonable time which has been allocated within their contracts

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS**1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-**

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r heriau sydd yn wynebu'r gyfundrefn addysg yng Ngwynedd ac mae'n gyson â nifer o negeseuon sydd wedi cael eu derbyn o du llywodraethwyr, penaethiaid, rheini a Phwyllgor Craffu. Mae'r adroddiad yn ceisio amlinellu egwyddorion sylfaenol a fydd yn ganllawiau pwysig yn y trafodaethau i'r dyfodol.

The report submitted is based on an analysis of the challenges facing the education system in Gwynedd and is consistent with numerous messages that have been received by governors, head teachers, parents and Scrutiny Committee. The report seeks to outline basic important principles which will be the basis for future discussions.

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Wrth symud i sefydlu egwyddorion penodol ar gyfer ymdrin â strwythur trefniadaeth ysgolion yng Ngwynedd, mae'n hanfodol fod y modd y bydd y rhain yn cael eu creu a'u gweithredu o fewn y fframwaith a'r gofynion statudol a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

When moving to establish the specific principles for addressing the school organisation framework in Gwynedd it is essential that these are created and implemented within the framework and requirements of statute and the School Organisation Code 2013.

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Rhaid cael egwyddorion cytunedig fel sail gadarn er mwyn siapio cyfundrefn addysg addas ar gyfer y dyfodol. Gwyddom y bydd angen adnabod arbedion pellach yn y tymor canol. Felly, bydd rhaid i'r Cyngor resymoli os am wireddu rhai o'r egwyddorion hyn.

There is a need for agreed principles as a solid foundation to shape the education system for the future. We know that further savings must be identified in the medium term. Therefore, the Council will need to rationalise in order to realise these principles.

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Nid yw'n fater lleol.

Not a local matter.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET
CYNGOR GWYNEDD
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 12/07/2016

PWNC / SUBJECT

Eitem : Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd

Item : *Off-street Parking Order*

PENDERFYNIAD / DECISION

Yn dilyn ystyriaeth o'r sylwadau a gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, symud ymlaen i gwblhau'r broses statudol i gadarnhau'r Gorchymyn Parcio newydd ar gyfer Gwynedd.

Sefydlu Tocyn Parcio Lleol newydd a fydd yn caniatáu i breswylwyr brynu tocyn parcio blynyddol ar gyfer y maes parcio agosaf at eu cartref am bris gostyngedig o £60 y flwyddyn.

Following consideration of the observations and objections received, to proceed to complete the statutory process to confirm the new Parking Order for Gwynedd.

To establish a new Local Parking Permit which will allow residents to buy an annual parking permit for the car park closest to their homes for a reduced price of £60 per annum.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION

Yng nghyfarfod y Cabinet ar 24 Tachwedd 2015, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad oedd yn amlinellu'r ymateb a gafwyd wrth ymgynghori ar y bwriad i greu Gorchymyn Parcio newydd ar gyfer Gwynedd. Golyga hyn y byddai'r Cyngor yn cyflwyno trefniadau rheoli newydd i 24 o feysydd parcio ar hyd a lled y Sir. Bydd 15 o'r rhain yn cael eu newid o fod yn feysydd parcio di-dâl i rai gyda threfniadau talu ac arddangos.

Cynhaliwyd proses ymgynghori gynhwysfawr arweiniodd at lunio'r rhestr derfynol o feysydd parcio a fyddai'n gweld newid i'w trefniadau rheoli presennol.

Penderfynodd y Cabinet ym mis Tachwedd 2015 i fabwysiadu'r argymhellion a bwrw 'mlaen i gyhoeddi Rhybudd Statudol terfynol o'r bwriad i gyflwyno'r Gorchymyn Parcio newydd. Erbyn hyn, mae'r Rhybudd Statudol wedi ei gyhoeddi ac mae'r cyfnod ar gyfer derbyn sylwadau neu wrthwynebiadau terfynol wedi cau. Derbyniwyd sylwadau mewn perthynas â 10 o'r 25 lleoliad, ac yn Atodiad A yr adroddiad i'r cyfarfod, gellir gweld crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd, ynghyd ag ymateb yr Adran i bob un, gan gyfyngu'r ymatebion i sylwadau oedd yn berthnasol i'r bwriad o greu Gorchymyn Parcio newydd.

Mae nifer o'r gwrthwynebiadau yn gyffredin i sawl ardal wahanol, ond yn y rhan helaeth o'r achosion mae modd goresgyn y pryderon a fynegir. Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth i un maes sydd wedi bod yn creu cryn bryder mewn sawl cymuned, sef sefyllfa preswylwyr sydd ar hyn o bryd yn parcio eu ceir mewn meysydd parcio ger eu cartrefi, a'r pryder na allent wneud hynny yn y dyfodol. Er nad oes dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu llecyn parcio am ddim i berchnogion tai, mae lle i'r Cyngor geisio cynorthwyo mewn sefyllfa o'r fath ac i'r perwyl hwnnw cynigir sefydlu Tocyn Parcio Lleol newydd. Bwriad y tocyn fyddai rhoi cynnig i breswylwyr a pherchnogion tai gael yr hawl i brynu tocyn parcio ar gyfer y maes parcio tymor hir agosaf at eu cartref. Byddai cost y tocyn newydd yn £60 am y flwyddyn neu ychydig dros £1 yr wythnos (yn ddarostyngedig i adolygiadau arferol ffioedd y Cyngor). Bydd yr adran yn mynd ati i ystyried sut orau i farchnata'r tocyn i sicrhau bod preswylwyr yn ymwybodol ei fod ar gael.

Credir fod ymateb y Cyngor i weddill y gwrthwynebiadau yn rhesymol ac felly argymhellwyd bwrw 'mlaen i gadarnhau'r Gorchymyn Parcio newydd yn unol â phenderfyniadau blaenorol y Cabinet. Cadarnhawyd mai caniatáu gweithrediad yn yr amgylchiadau cywir mae'r penderfyniad hwn yn hytrach na gorfodaeth i weithredu. Bydd cyfnod o fonitro ymhob ardal yn dilyn gosod gorchymyn newydd ac os bydd problemau'n amlygu, bydd modd i'r adran ddelio'n briodol â hynny yn ôl yr angen.

Bydd angen gwneud gwaith ar rhai meysydd parcio cyn gellir gweithredu'r gorchymyn newydd, ond ar y cyfan gobeithir y bydd mewn gweithrediad erbyn y tymor gwyliau nesaf.

At the Cabinet meeting of 24 November 2015, consideration was given to a report which outlined the response received when consulting on the intention to create a new Parking Order for Gwynedd. This meant that the Council would introduce new management arrangements for 24 car parks throughout the county. 15 of these would be changed from being free car parks to ones with pay and display arrangements.

A comprehensive consultation process was undertaken which led to drawing up the final list of car parks which would see a change in the existing management arrangements. In November 2015, the Cabinet resolved to adopt the recommendations and proceed to issue a final Statutory Notice of the intention to introduce the new Parking Order. By now, that Statutory Notice has been issued and the period for receiving final observations or objections has closed. Observations were received in relation to 10 of the 25 locations, and Appendix A to the report to the meeting provides a summary of the main points raised, together with the Department's response to each one. Our responses were limited to observations which were relevant to the proposal of creating a new Parking Order.

A number of the objections were common to several different areas, but in the majority of the cases the concerns expressed can be overcome. However, consideration needs to be given to one field which had been causing considerable concern in several communities, namely the situation of residents who currently park their cars in car parks near their homes, and the concern that they will not be able to do so in the future. Although there is no duty on the Council to provide free

parking spaces for home-owners, there is room for the Council to try to assist in such situations and to that end it is proposed that a new Local Parking Permit be established. The purpose of the permit would be to offer residents and owners of houses the right to buy a parking permit for the car park closest to their homes only. The cost of the new permit would be £60 per annum or a little over £1 per week (subject to the Council's usual fee reviews). The department will proceed to consider ways of promoting use of the permit to ensure that residents are aware that it is available.

It is believed that the Council's response to the remaining objections is reasonable and therefore it is recommended to proceed to confirm the new Parking Order in accordance with the Cabinet's previous decisions. It was confirmed that this decision permits action to be taken in the right circumstances rather than enforcement to act. There will be a monitoring period in each area following the new order coming into force and if problems are highlighted, the department will be able to deal appropriately with those as required.

Work will need to be undertaken in some car parks before the new order can be implemented, but on the whole it is hoped that it will be in operation by the next holiday season.

SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS

Nodwyd bod nifer uwch o sylwadau wedi cyrraedd yr adran o bentref Borth y Gest. Sicrhawyd bod yr holl wybodaeth sydd wedi dod i law, gan gynnwys deiseb a gyflwynwyd, wedi ei rannu â'r holl Aelodau a phwysleisiwyd bod yr holl ddeunydd yn derbyn ystyriaeth lawn wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen.

Yn benodol, crybwyllwyd pryder gan drigolion Borth y Gest o fwriad y Cyngor i gymryd tir gwyrdd yn y pentref er mwyn ehangu'r maes parcio. Cadarnhawyd nad oes unrhyw gynlluniau i wneud hyn, ac mai'r bwriad yw newid y gorchymyn yn unig.

Nodwyd hefyd bryder ynglŷn â natur yr orfodaeth ym Morth y Gest a chadarnhawyd nad oes unrhyw fwriad i orfodi yn wahanol i'r un lle arall yn y Sir.

Pryderon amlwg eraill oedd rhai yn ymwneud â strydoedd penodol ble ofnir y bydd bobl yn parcio er mwyn osgoi ffioedd y Cyngor. Nodwyd nad oes unrhyw dystiolaeth y byddai unigolion yn parcio ar strydoedd eraill i osgoi ffi, ac yn fwy na hynny bod dystiolaeth gadarn mai pryder mwyaf perchnogion ceir yw lle diogel a thaclus i barcio eu car, ac yn gyffredinol eu bod yn fodlon talu am y ddarpariaeth honno.

Roedd pryderon am sefyllfa breswylwyr heb lle i barcio ym Morth y Gest; cadarnhawyd y byddai cyflwyno'r Tocyn Parcio Lleol newydd yn cyfarch y pryderon hyn.

Wedi ystyried a chloriannu'r wybodaeth uchod, derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio.

It was noted that a higher number of observations had been received by the department from the village of Borth-y-gest. It was ensured that all the information which had come to hand, including a petition submitted, had been shared with all Members and it was emphasised that all the material was being considered fully when deciding on the way forward.

Specifically, concerns were expressed by the residents of Borth-y-gest of the Council's intention to take green land in the village in order to extend the car park. It was confirmed that there were no plans to do so, and that the intention was to change the order only.

Concern was also noted regarding the nature of enforcement in Borth-y-gest and it was confirmed that there was no intention to enforce any differently than elsewhere in the County.

Other obvious concerns were those involving specific streets where it was thought that people would park in order to avoid the Council fees. It was noted that there was no evidence that individuals would park on other streets to avoid the fee, and moreover there was firm evidence that the biggest concern of car owners was having a safe and tidy place to park their cars, and in general they were willing to pay for that provision.

There were concerns about the situation of residents without anywhere to park in Borth-y-gest; it was confirmed that introducing the new Local Parking Permit would address these concerns.

Having considered and deliberated the above information, the report submitted by the Cabinet Member for Planning and Regulatory was accepted.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Fel nodais yn fy sylwadau, pan ddaeth y mater gerbron y Cabinet yn Nhachwedd 2015, cynhaliwyd ymgynghoriad efo aelodau a chymunedau lleol ar y cynigion cyn llunio'r gorchymyn drafft. Bellach, derbyniwyd sylwadau ar y gorchymyn ac mae'r adroddiad a gyflwynwyd yn nodi ymateb y Gwasanaeth i'r sylwadau hynny. Yn benodol, mae ymdrech y Gwasanaeth i ymateb i bryderon am barcio gan breswylwyr trwy gyflwyno'r Tocyn Parcio Lleol yn ymddangos yn ateb cymedrol a rhesymol i broblem real y mae rhai trigolion wedi ei adnabod.

When the matter came before the Cabinet in November 2015, I indicated in my remarks that the consultation took place with members and local communities on the proposals before compiling the draft report. Further to this, comments have been received on the order and the report identifies the Service's response to those comments. In particular, the effort of the Service to respond to concerns about parking by residents by introducing a Local Parking Permit seems a moderate and reasonable solution to a real problem that has been identified by some residents.

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-

Mae'r adroddiad i'r cyfarfod yn crynhoi y gwrthwynebiadau a gafwyd yn sgil hysbysebu statudol y gorchymyn mewn modd priodol. Mae'r Cabinet wedi cloriannu'r gwrthwynebiadau yma wrth benderfynu ar gadarnhau y gorchymyn.

The report to the meeting appropriately summarises the objections received following the statutory notice of the order. The Cabinet has considered these objections in reaching a decision to confirm the order.

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Yn dilyn adroddiad aeth i'r Cabinet ar 19 Chwefror 2015, mabwysiadwyd argymhellion oedd yn deillio o adolygiad cyfansawdd o bob agwedd yn ymwneud â rheolaeth parcio yn y sir, a bu i nifer o'r rhain gael eu gweithredu o'r 1af Ebrill 2015. Fe geisir yma gael penderfyniad ar un o'r argymhellion i ymestyn y Gorchymyn Parcio er mwyn cyflwyno trefniadau rheoli newydd i feysydd parcio ychwanegol eraill o fewn y Sir. Bydd hyn yn golygu y gellir codi ffi ar y meysydd parcio hynny ac amcanwyd ar y pryd incwm ychwanegol gwerth £179k.

Er bod ffioedd parcio yn fater cynhennus i nifer o drigolion ac aelodau etholedig, byddai ymestyn y gorchymyn parcio yn unol â'r argymhellion yma yn cyfrannu ymhellach at gyflawni targed arbedion yr Adran Rheoleiddio, sydd yn ei dro wedi cyfrannu at strategaeth arbedion y Cyngor.

Following a report to Cabinet on 19 February, 2015, recommendations made following a comprehensive review of all aspects relating to parking management in the County were approved, and a number of these were implemented as from 1 April, 2015. The decision sought here is on one of the recommendations to extend the Parking Order so as to introduce new management arrangements for additional car parks within the county. This will mean that a fee can be charged for use of those car parks and at the time an additional income of £179k was estimated.

Although parking charges are a contentious issue for a number of residents and elected members, extending the parking order in accordance with these recommendations would contribute further towards achieving the Regulatory Department's savings target, which in turn will contribute towards the Council's savings strategy.

BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER

Bydd y Gorchymyn ei hun yn cyfarch y Sir gyfan. Wrth gwrs, roedd yr ymgynghoriad a gafwyd yn rhoi sylw i feysydd parcio unigol a rhoddwyd cyfle i aelodau lleol a chynghorau cymuned a thref ymateb i'r cynigion hynny. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu crynhoi yn Atodiad 1 yr adroddiad i'r cyfarfod.

The Order will be applicable to the whole county. Evidently, the consultation held addressed individual car parks, and local members and community and town councils were given an opportunity to respond to those proposals. The observations received have been summarised in Appendix 1 of the report to the meeting.
